

No.

## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd, 2021

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, T.H. Jarvie, J.M. Norman, A.C. Parker, S.D. Perkes, L.O. Rowlands a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), H. Gapper (Addysg Gymraeg) ac I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio), K.F. McCaffer (Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant) a Dr. I.J. Johnson.

### 536 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 537 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

### 538 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

### 539 FFRAMWAITH GWELLA AC ATEBOLRWYDD (CDS) –

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y Fframwaith Gwella ac Atebolrwydd ac am sut yr oedd CCD yn cefnogi pob ysgol ym Mro Morgannwg.

Mewn ymateb i atal y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion ym mis Medi 2020, roedd CCD wedi datblygu, defnyddio a mireinio model newydd o gymorth ar gyfer ysgolion a oedd wedi'i gysylltu'n agos â'r canllaw newydd

No.

newydd gan Lywodraeth Cymru: 'Canllaw gwella ysgolion - fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd', a gynhwyswyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Roedd y model gweithio newydd hwn yn dilyn dull o 'weithio ochr yn ochr ag ysgolion', lle'r oedd ffocws cryf ar flaenoriaethau ysgolion ar gyfer gwella ac ar neilltuo mwy o amser i bob ysgol.

Yn dilyn hynny, gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau a Gwella yn CCD i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at sut y byddai'r Consortiwm yn cefnogi ysgolion i wella ym mis Medi 2021 a thu hwnt.

Yn dilyn y cyflwyniad, cododd yr Aelodau sawl ymholiad, a gellid crynhoi'r ymatebion iddynt fel a ganlyn:

- Cydnabuwyd bod y rheiny sy'n dysgu gartref yn ystod y pandemig wedi cael profiadau amrywiol, gyda rhai'n gadarnhaol, rhai'n negyddol, a llawer yn y canol. Roedd CCD yn gweithio ar sicrhau bod adnoddau ar gael i athrawon, a bod ffocws cymunedol ar sicrhau y gall rhieni a gwarcheidwaid gael gafael ar adnoddau.
- Er bod ysgolion wedi nodi eu blaenoriaethau gwella eu hunain, roedd hefyd angen iddynt sicrhau bod y rhain yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol a blaenoriaethau Cenedlaethol. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gallu dangos bod angen eu blaenoriaethau, a lle nad oedd hyn yn wir, cafodd yr ysgol eu herio gan eu Partneriaid Gwella.
- Sicrhaodd CCD ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r Awdurdod Lleol drwy gyfarfod ar ddechrau'r tymor rhwng Partneriaid Gwella a Swyddogion yr Awdurdod Lleol, gyda'r wybodaeth hefyd yn cael ei rhannu â phenaethiaid er mwyn sicrhau bod negeseuon yn glir.

Gan fod yr Aelodau wedi ystyried yr adroddiad a'r cyflwyniad yn llawn, fe'i

ARGYMHELLWYD – DYLLID nodi'r adroddiad a'r gwaith caled sy'n cael ei wneud ledled Bro Morgannwg a gan Gonsortiwm Canolbarth y De.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 540 DIWEDDARIAD GWASANAETH IEUENCTID (CDS) –

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol dros Gynhwysiant Cymdeithasol a Lles a'r Rheolwr Ymgysylltu yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Tynnodd yr adroddiad sylw at gyflawniadau a wnaed gan y gwasanaeth ers y diweddariad blaenorol yn hydref 2020, a oedd yn cynnwys:

- Adnewyddu Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid Efydd y gwasanaeth;

No.

- Addasu'n sylweddol mewn ymateb i bandemig Covid gyda phwyslais sylweddol ar arloesi ac ymateb i anghenion pobl ifanc;
- Datblygu strwythur cyfranogiad newydd gan gynnal y Cabinet leuenctid ond gan gyflwyno fforwm newydd dan arweiniad pobl ifanc a oedd yn sail i'r Cabinet, gan gefnogi mwy o bobl ifanc i gymryd rhan;
- Sicrhau bod rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE), Ysbrydoli i Gyflawni (I2A) ac Ysbrydoli i Weithio (I2W), yn parhau i weithredu ledled y Fro, gan gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- Parhau i gyflwyno'r cwricwlwm Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh) fel rhan o ddarpariaeth Lles y Ganolfan Dysgu a Lles (CDLI) (Y Daith gynt);
- Defnyddio £516,422.00 ychwanegol o arian grant gyda'r nod o dargedu digartrefedd ymhlith pobl ifanc ac o wella iechyd a lles pobl ifanc;
- Perfformio'n dda o ran cyflawni canlyniadau achrededig;
- Sefydlu tîm ymgysylltu â disgyblion newydd ar ôl i gynigion gael eu cadarnhau; a
- Cynllunio ar gyfer tynnu CGE yn ôl ac effaith y datblygiadau ar gyfer y CDLI ym mis Rhagfyr 2022.

Yn dilyn eu cyflwyniad, diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr adroddiad a llongyfarchon nhw'r gwasanaeth ar ei waith caled a'i gyflawniadau drwy gydol y flwyddyn.

Nododd y Cynghorydd N.C. Thomas fod yr angen am fwy o gymorth ymhlith pobl ifanc wedi dod i'r amlwg ers dechrau COVID-19, a phwysleisiodd yr angen i gynnal y Gwasanaeth leuenctid ar lefel lle gallai fynd ati i gefnogi pobl ifanc, nid yn unig er eu budd eu hunain ond er mwyn osgoi cost cymorth amgen drutach yn y dyfodol. Felly, roedd y Cynghorydd am eirioli'n gryf ar ran y Gwasanaeth leuenctid a'i botensial i roi cymorth i unigolion a theuluoedd sy'n cael trafferthion, ac argymhellodd y dylid ystyried hyn yn ystod ystyriaethau cyllidebol sydd ar ddod, gan nodi bod yr adroddiad yn dweud nad oedd dyraniad arian grant gan Lywodraeth Cymru (a oedd ar hyn o bryd yn cyfrif am 45% o arian y Gwasanaeth leuenctid) wedi'i warantu y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Gobeithiai y byddai'r Gwasanaeth leuenctid yn cael ei ystyried yn wasanaeth sy'n haeddu cefnogaeth gref o fewn y gyllideb, o gofio y gallai rhoi cymorth angenrheidiol i bobl ifanc yn awr osgoi pwysau cost mwy yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach gan yr Aelodau, rhoddodd y Swyddogion wybod am y canlynol:

- O ran adnoddau ychwanegol, tynnwyd £85k ychwanegol i lawr ym mis Ionawr/Chwefror 2021 ochr yn ochr â chefnogi'r rhaglen Haf o Hwyl gyda'r Gwasanaethau Plant. Defnyddiwyd £100k ychwanegol o danwariant o fewn Llywodraeth Cymru i dargedu'n benodol gymorth lles i bobl ifanc sy'n pontio, yn benodol o fewn y cyfnod ôl-16. Roedd y gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda Chwaraeon a Chwarae ar hyn o bryd i gyflwyno'r rhaglen Gaeaf llawn Lles gyda £270,000 ychwanegol wedi'i sicrhau.

No.

- Roedd y swyddogion am dynnu sylw at y Gwasanaeth Ymgysylltu â Disgyblion newydd a oedd yn cefnogi llawer o ddysgwyr yn ystod camau cynnar y broses Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).
- Nid oedd nifer y bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn 2021 ar gael eto, gan fod data cyrchfannau wedi'i oedi ac ni ellid gwirio'r ffigurau hyd yma. Roedd y gwasanaeth yn gweithio i gasglu'r wybodaeth ac roedd y niferoedd yn gostwng yn gyflym gyda data cyrchfannau yn cael ei gadarnhau.
- O ran materion diweddar gyda phobl ifanc mewn ardaloedd yn y Barri, roedd y gwasanaeth wedi gweithio gyda'r tîm plismona lleol, wedi nodi'r broblem yn gynnar a threfnu darpariaeth allanol i olrhain yr ardaloedd perthnasol. Roedd y gwasanaeth wedi gweithio gyda'r heddlu a Chyngor Tref y Barri i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r bobl ifanc mewn ffordd a oedd yn gynhyrchiol yn hytrach nag adweithiol, er enghraifft sesiynau ymwybyddiaeth graffiti drwy'r rhaglen Haf o Hwyl.
- Parhaodd y Clwb Ieuencid yn CF61 yn Llanilltud Fawr ddwy noson yr wythnos, a byddai'r Swyddogion yn rhoi ffigurau i'r Cynghorydd Norman ar y nifer sy'n manteisio ar y clwb yn dilyn y cyfarfod.

Dywedodd Mr Cramb fod pethau'n mynd yn dda o safbwynt y Cabinet Ieuencid a'i fod am ddiolch i'r gweithwyr ieuencid cysylltiedig, gan gydnabod ei bod yn broses anodd.

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad yn llawn, fe'i

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID nodi'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Ieuencid yn y 12 mis diwethaf, y datblygiadau parhaus a'r cynnydd mewn darpariaeth.

(2) DYLID derbyn adroddiad diweddarau cynnydd pellach ynghylch cyflenwi parhaus, ochr yn ochr ag ymwybyddiaeth o grantiau a chyllid Ewropeaidd a'r risgiau y mae hyn yn ei peri mewn 12 mis.

(3) DYLID cyfathrebu i'r Cabinet trwy lythyr ar gyfer ei ystyriaeth sylwadau'r Pwyllgor ynghylch pwysigrwydd eirioli dros a chefnogi'r Gwasanaeth Ieuencid yn ystod trafodaethau cyllidebol sydd ar ddod.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) I sicrhau fod barn y Pwyllgor yn cael ei hystyried yn ystod ystyriaethau cyllidebol.

541 YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN  
ADDYSG DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG (WESP) 2022-32 (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Strategaeth ac Adnoddau yr adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor fel rhan o'r ymarfer ymgynghori.

Roedd dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gynyddu cyfran yr holl grwpiau blwyddyn ysgol sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda phwyslais ar gynyddu nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn cyd-fynd â hyn, roedd angen i'r Cyngor baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd rhwng 2022-2023, ymgynghori arno a'i gyflwyno, i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru iddynt ei gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022. Felly, roedd y Cyngor wedi credu gweledigaeth a strategaeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg deng mlynedd ddrafft, gydag ymgynghoriad yn cael ei gynnal o ddydd Gwener 15 Hydref 2021 i ddydd Gwener 10 Rhagfyr 2021.

Roedd y targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Drafft yn heriol a byddai angen buddsoddiad sylweddol dros oes y cynllun. Byddai strategaeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn elfen allweddol wrth ddatblygu Band C rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o'r adroddiad, gwahoddod y Cadeirydd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson, nid Aelod o'r Pwyllgor, i gyflwyno sylwadau llafar i'r Aelodau, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd y Gymraeg ar ei gryfaf mewn ardaloedd lle'r oedd dilyniant clir rhwng y cyfnod Cynradd a'r cyfnod Uwchradd, ac felly roedd angen i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ystyried addysg uwchradd y tu allan i'r Barri.
- O ystyried y ffaith bod dalgylchoedd yn y Rhws a Chanol Bro Morgannwg wedi newid roedd yn bwysig sicrhau y byddai addysg Gymraeg ar gael yn wirioneddol ledled y sir.
- Er bod darpariaeth Gymraeg y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (RhCGY) wedi bod yn gadarnhaol, dim ond un ysgol Gymraeg oedd wedi bod yn gymwys.
- Roedd uned drochi Gymraeg ac Anghenion Dysgu â Chymorth (ADCh) yn feysydd ffocws pwysig gan nad oedd rhaglen drochi ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd ac nad oedd cymorth ADCh Cymraeg yn amlwg.

Cytunodd Mr H. Gapper, ar ôl siarad â phenaethiaid ysgolion Cymraeg hefyd, â llawer o bwyntiau a wnaed gan y Cynghorydd Johnson, ond roedd am dynnu sylw at y ffaith, gan y dylai'r gwaith o ehangu Ysgol Sant Baruc fod wedi digwydd yn barod, na ddylid cynnwys plant Cymraeg pum mlwydd oed ychwanegol a enillid drwy'r ehangu o fis Medi 2022 o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ychwanegodd fod y penaethiaid wedi dweud nad oedden nhw'n ymwybodol o'r ymgynghoriad, a'i fod felly'n teimlo bod angen i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth.

No.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Johnson a sylwadau pellach gan yr Aelodau, rhoddodd y Swyddog ymatebion y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i sefydlu uned drochi yn y Fro, i'w lleoli yn Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant, ac er nad oedd wedi'i derbyn ffurfiol hyd yma, dywedodd y Swyddog fod arwyddion cadarnhaol wedi bod yn hyn o beth.
- Roedd y Cyngor wedi ymrwmo i brosiect ymchwil gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymchwilio i heriau lleol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Nodwyd y byddai RhCGY yn agored i fwy o ysgolion eleni, gan gynnig mwy o gyfleoedd i fynychu, ac roedd hyn yn cynnwys ysgolion Cymraeg.
- Roedd y Cyngor wrthi'n edrych ar gymorth ADCh Cymraeg ac yn gweithio i'w wella, a oedd anodd gyda phrinder arbenigwyr yn gyffredinol. Yn flaenorol, sefydlwyd canolfan adnoddau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, ond nid oedd hyn wedi bod yn briodol. Roedd y Gyfarwyddiaeth yn ymwybodol iawn bod angen mynd i'r afael â'r mater ac i fuddsoddi ynddo hefyd.
- Er nad oedd y targed o 24% o siaradwyr Cymraeg erbyn 2031 fel y'i nodwyd yn yr adroddiad ar ben uchaf awgrym Llywodraeth Cymru o 22-26%, ac roedd yn is na'r targedau a osodwyd gan rai Awdurdodau Lleol eraill, roedd y Cyngor wedi edrych ar yr hyn y gallai ei gyflawni'n realistig o'i ragamcanion, a byddai 24% yn her. Mae'r Cyngor yn bwriadu rhagori ar y nifer hwn, ond byddai'n anodd sicrhau cynnydd pe bai targed o 26% yn cael ei osod.
- Roedd y swyddogion wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â phenaethiaid ysgolion Cymraeg a chysylltwyd â hwy ynglŷn â'r ymgynghoriad, ond byddai'r Swyddogion yn sicrhau bod negeseuon atgoffa yn cael eu hanfon gan eu bod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau ei fod yn cael ei rannu.

Ar ôl ystyried y Cynllun drafft yn llawn, fe'i

ARGYMHELLWYD – DYLID cymeradwyo'r adroddiad a'r Cynllun drafft.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn galluogi Cynllun cynhwysfawr a hyddysg i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau statudol o 31 Ionawr 2022.